



CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU PARTNERIAETHAU PENSIYNAU CYMRU

DYDDIAD 19 GORFFENAF 2023

PWNC

Y WYBODAETH DDIWEDDARAF GAN YR AWDURDOD LLETYA

ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:

Derbyn diweddariad gan yr awdurdod lletya

RHESYMAU:

Yr awdurdod lletya i roi diweddariad ar gynnydd mewn perthynas â'r meysydd allweddol a ganlyn:

- Llywodraethu
- Sefydlu parhaus
- Gwasanaethau gweithredwr
- Cyfathrebu ac adrodd
- Hyfforddiant a chyfarfodydd
- Adnoddau, cyllideb a ffioedd

Awdur yr Adroddiad:
Chris Moore

Swydd:
Cyfarwyddwr Gwasanaethau
Corfforaethol

Cyngor Sir Gâr

Rhif Ffôn 01267 224160

E-bost:
CMoore@carmarthenshire.gov.uk

CRYNODEB GWEITHREDOL CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU

DYDDIAD 19 GORFFENNAF 2023

Y WYBODAETH DDIWEDDARAF GAN YR AWDURDOD LLETYA

CRYNODEB BYR O BWRPAS YR ADRODDIAD

Cymeradwywyd Cynllun Busnes PPC 2022/23 gan y Cydbwyllgor Llywodraethu ar 23 Mawrth 2022. Atodir diweddariad i Chwarter 4 (1 Ebrill hyd 31 Mawrth 2023) sy'n dangos cynnydd PPC o ran adrannau'r Cynllun Gwaith, y Gyllideb a'r Buddsoddiadau.

Mae gwaith wedi parhau i gael ei ddatblygu mewn nifer o feysydd allweddol, gan gynnwys:

- Cwblhau cau cyfrifon diwedd blwyddyn 2022/23
- Adolygu polisiâu - Polisi Hinsawdd a Pholisi Pleidleisio wedi'u hadolygu yn ystod y chwarter hwn
- Marchnadoedd Preifat:
 - Rhaglenni buddsoddiad Credyd Preifat ac Isadeiledd wedi'u lansio
 - Rhaglen fuddsoddi Ecwiti Preifat - mae gwaith ar y gweill i lansio yn ddiweddarach eleni
 - Eiddo Tiriog - ar hyn o bryd ar y cam manyleb mandad
- Contract y Gweithredwr - Cyhoeddwyd yr hysbysiad gwybodaeth ymlaen llaw (PIN) ar 17 Ionawr 2023 a chynhaliwyd Diwrnod Ymgysylltu â'r Farchnad yng Nghaerdydd ar 9 Mawrth 2023. Yn y broses o ddatblygu'r dogfennau caffael.
- Buddsoddiad Cyfrifol - adolygu polisi, fframwaith / proses stiwardiaeth, cod stiwardiaeth ac adrodd TCFD.

Camau nesaf / Blaenoriaethau:

- Creu'r polisi Toriadau a Chamgymeriadau
- Lansio'r Is-gronfa Ecwiti Cynaliadwy
- Datblygu'r rhaglenni Buddsoddi Ecwiti Preifat ac Eiddo Tiriog
- Contract Gweithredwr - amserlen y broses gaffael, camau allweddol:
 - Gorffennaf 2023 - CBLI i gymeradwyo'r meini prawf gwerthuso a sgorio
 - Gorffennaf - Hydref 2023, Awdurdodau Cyfansoddol (AC) unigol i gymeradwyo'r meini prawf gwerthuso a sgorio
 - Hydref 2023 – Cyflwyno Gwahoddiad i Dendro (ITT)
 - Tach / Rhag 2023 – gwerthuso ITT

- Mawrth 2024 – CBLI y Gymeradwyo'r gweithredwr a argymhellir
- Mawrth / Ebrill 2024 - Cymeradwyaeth gan yr AC
- Mai 2024 - Penodi'r Gweithredwr
- Mai 2024 – Rhag 2024 – cyfnod trosiannol
- Rhagfyr 2024 – dyddiad dechrau'r contract newydd
- Ffurio Diweddariad Blynyddol ac Adroddiad Blynyddol 2022/23
- Adrodd TCFD

Meysydd allweddol eraill:

- Hyfforddiant - sesiynau hyfforddiant yn parhau i gael eu cynnal yn rhitihol.
- Gwefan - mae'r wefan yn parhau i gael ei diweddarau â newyddion a chyhoeddiadau perthnasol.

GOBLYGIADAU

Polisi, Trosedd ac Anhrefn a Chydraddoldeb OES	Cyfreithiol DIM	Cyllid DIM	Materion Rheoli Risg DIM	Goblygiadau Staffio DIM
Mae Polisi				
Bydd y dogfennau polisi a gweithdrefnau yn ddogfennau ffurfiol ar gyfer Partneriaeth Pensiynau Cymru.				

YMGYNGHORIADAU

Dylid cynnwys manylion unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd yma

**Rhestr o Bapurau Cefndir a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn:
MANYLIR AR Y RHAIN ISOD**

Teitl y Ddogfen	Cyfeirnod Ffeil	Y manau lle mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd eu gweld/DOLEN GWEFAN